Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Hafod Lon
# Parc Busnes Eryri
# Penrhyndeudraeth
# Gwynedd
# LL48 6LD

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Hafod Lon

Mae Ysgol Hafod Lon yn ysgol ddydd arbennig wedi'i lleoli ar gyrion pentref Penrhyndeudraeth. Mae'n un o ddwy ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg unigol. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Ar hyn o bryd, mae 110 o ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed ar y gofrestr. Daw rhan fwyaf y disgyblion o ardal Meirionnydd a Dwyfor a daw ychydig iawn ohonynt o ardal Arfon ac awdurdodau lleol cyfagos. Mae oddeutu hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae tua 36% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi symud i safle newydd. Yn ystod y pymtheg mis diwethaf, mae nifer y disgyblion ar y gofrestr wedi cynyddu'n sylweddol. Golyga hyn fod cynnydd hefyd yn nifer y staff sydd yn gweithio yn yr ysgol, ac yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu strwythur arweinyddiaeth newydd.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Hafod Lon yn ysgol greadigol arweiniol sydd yn cydweithio ag ymarferwyr creadigol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2004. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Rhagfyr 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Hafod Lon yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn ac yn datblygu medrau buddiol i'w paratoi at fywyd fel oedolyn. Mae'r cynnydd a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn nodwedd arbennig. Mae llawer yn ymdrechu'n galed i gyfathrebu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion a chyda staff ac ymwelwyr.

Mae safonau lles disgyblion Hafod Lon yn gadarn dda ac mae gan ran fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion parchus a balch sy'n cyfathrebu'n huawdl gyda staff, ymwelwyr a chydag aelodau o'r gymuned. Mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan fywiog ym mywyd yr ysgol ac maent yn frwdfrydig i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ar draws yr ysgol.

Mae gan yr holl staff berthynas hynod gadarnhaol, gynhaliol, glos gyda'u disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion, eu personoliaeth a'u talentau yn dda.

Yn gyffredinol, mae ansawdd addysgu yn Ysgol Hafod Lon yn ddigonol ac angen gwelliant.

Mae gan yr ysgol strwythur arweinyddiaeth newydd ers mis Medi 2016 i fodloni gofynion ysgol fwy ar safle newydd. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur hwn wedi gwreiddio'n llawn eto, ac o ganlyniad, nid yw'r prosesau sicrhau ansawdd wedi aeddfedu. Ar hyn o bryd, nid yw'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r addysgu yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws yr ysgol yn unol â'u hanghenion

A2 Datblygu cynllun strategol ar gyfer darpariaeth llythrennedd, rhifedd a TGCh er mwyn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau blaenorol wrth iddynt fynd trwy'r ysgol

A3 Sicrhau cysondeb yn yr addysgu a rhannu'r arferion gorau ar draws yr ysgol

A4 Cryfhau'r broses hunanarfarnu a gwella ansawdd fel bod arweinwyr yn adnabod y meysydd gwella yn drylwyr ac yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gwelliant ysgol gyfan

A5 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u man cychwyn ac yn datblygu medrau buddiol i'w paratoi at fywyd fel oedolyn. O ganlyniad, mae pob un disgybl yn symud ymlaen i goleg, hyfforddiant pellach neu leoliad addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, a'u medrau yn y dosbarth ac wrth gydweithio a chydchwarae. Mae'r cynnydd a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn nodwedd arbennig. Er bod tua hanner y disgyblion yn dod o gartrefi lle nad Cymraeg yw iaith yr aelwyd, mae bron pob un yn dangos lefel gref o ddealltwriaeth o'r iaith Gymraeg erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Mae llawer yn ymdrechu'n galed i gyfathrebu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion a chyda staff ac ymwelwyr.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod, oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad yr holl ddisgyblion a pherfformiad bechgyn a merched, y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus a pharchus ar yr athrawon, staff cymorth ac ar gyd-ddisgyblion. Maent yn arddangos lefel uchel o oddefgarwch a dygnwch wrth aros eu tro tra mae eu cymheiriaid yn cyfrannu i'r wers. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dilyn cyfarwyddiadau'n rhwydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i athrawon a staff cymorth.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu medrau annibynnol, er enghraifft wrth ymarfer medrau personol fel casglu dillad addysg gorfforol ar gyfer y wers, nofio'n annibynnol yn y ganolfan hamdden a dilyn a chadw at reolau o gwmpas yr ysgol ac yn y gymuned.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu amrywiol fedrau cyfathrebu yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion yn gadarn wrth fynegi teimladau neu wrth gynnig syniadau. Er bod ychydig ohonynt yn gyndyn i ymestyn eu hymatebion, mae llawer yn siarad yn glir ac yn hyderus wrth gyflwyno gwybodaeth am eu hunain a disgrifio eu teimladau. Mae'r disgyblion mwy abl yn fedrus wrth egluro ffeithiau a phrosesau, fel cylchedd y glaw. Mae llawer o'r disgyblion, yn enwedig y rhai ieuengaf, yn defnyddio system cyfnewid lluniau buddiol i gyfathrebu'n rhwydd â'u cyfoedion yn ystod amser cylch ac amser egwyl. Mae llawer o ddisgyblion yn barchus wrth groesawu ymwelwyr i'r ysgol, gan ddangos diddordeb a pharodrwydd brwdfrydig i siarad â nhw.

Yn unol â'u gallu a'u hanghenion, mae'r disgyblion yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus. Gall y mwyafrif ddilyn cyfarwyddiadau syml, lleoli ffeithiau'n gywir a gosod brawddegau neu luniau mewn trefn synhwyrol yn briodol. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen gyda hyder wrth drafod yr hyn a ddarllenant. Mae'r mwyafrif ohonynt yn arddangos lefel dda o fwynhad wrth ddarllen llyfrau ac erthyglau ar y we.

Mae medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd addas wrth ddefnyddio llechi cyfrifiadurol i adnabod llythrennau ac i ysgrifennu dros eiriau sylfaenol. Mae'r lleiafrif o'r disgyblion hŷn yn gwella eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol i gynnwys geirfa bynciol a ffeithiau cywir wrth ysgrifennu'n annibynnol.

Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau rhifedd ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol yn eu gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio unedau mesur a phwyso yn llwyddiannus wrth gyfrifo, er enghraifft trwy adnabod gwrthrychau neu hylifau sydd yn drymach neu'n ysgafnach na'i gilydd ac yn dod i gasgliadau cywir wrth gyfrif a thynnu i ffwrdd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud defnydd buddiol o wybodaeth bersonol, fel taldra, i lunio graffiau a chyfrifo cyfartaleddau. Yn unol â'u gallu, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd buddiol o'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd eraill tu allan i wersi mathemateg. Er enghraifft, mewn gwersi iaith, mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau cyfrifo yn dda wrth ddadansoddi cyfnodau mewn gêm bêl-droed.

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o hanfodion e-ddiogelwch yn ddigon cadarn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae safonau lles disgyblion Hafod Lon yn gadarn dda ac mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae bron pob disgybl yn datblygu medrau personol gwerthfawr a strategaethau buddiol ar gyfer ymateb yn frwdfrydig i waith a gweithgareddau.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os byddant yn bryderus. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac yn datblygu perthnasoedd cryf gydag aelodau staff a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion parchus a balch sy'n cyfathrebu'n huawdl gyda staff, ymwelwyr a chydag aelodau o'r gymuned.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgartrefu'n gyflym i weithio, yn canolbwyntio'n dda wrth ddilyn cyfarwyddiadau ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd. Ar y cyfan, mae'r disgyblion hynny sydd angen mwy o gyfarwyddiadau ac arweiniad ynglŷn â'u hymddygiad a'u gallu i ganolbwyntio, yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r cymorth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn groesawgar, yn gwrtais ac yn barod i rannu eu profiadau am yr ysgol a'u cyflawniadau, er enghraifft am eu gwaith gyda busnes a menter Cwmni Llon. Mae eu brwdfrydedd yn cyfrannu'n werthfawr at yr awyrgylch gefnogol sy'n bodoli ar draws yr ysgol. Mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau hyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol o un cyfnod i'r nesaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cerddorol a pherfformio gwerthfawr yn eu gwersi cerdd ac wrth fod yn rhan o brosiectau ehangach buddiol, er enghraifft gyda chôr meibion lleol ac ysgolion eraill yn y dalgylch. Trwy gyfrannu mewn cyngerdd yn y gymuned gyda chôr lleol, mae'r disgyblion yn dangos safonau uchel o

hunanhyder yn ogystal â defnyddio'u medrau creadigol yn effeithiol wrth berfformio'n gyhoeddus. Mae llawer o'r disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau cerddorol ac yn profi llwyddiant mewn eisteddfodau yn genedlaethol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ymarfer corff yn unol â'u hanghenion. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r offer chwarae y tu allan yn ystod amser cinio ac amser egwyl ac yn cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon fel pêl-droed.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa'n sylweddol trwy gymryd rhan mewn ystod eang o ymyraethau therapiwtig defnyddiol fel therapi cerdd, therapi adlam a hydrotherapi.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan fywiog ym mywyd yr ysgol. Maent yn frwdfrydig i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, fel bod yn brif swyddogion, aelodau o'r cyngor ysgol neu'r pwyllgor eco. Maent wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at awyrgylch allanol yr adeilad newydd trwy gydgynllunio gyda'r penseiri i greu ardal amlbwrpas ar gyfer chwaraeon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Yn gyffredinol, mae ansawdd addysgu yn Ysgol Hafod Lon yn ddigonol ac angen gwelliant.

Mae gan y pennaeth, athrawon a gweddill staff yr ysgol berthynas hynod gadarnhaol, gynhaliol, glos gyda'r disgyblion ac maent yn adnabod eu personoliaethau a'u talentau yn dda.

Yn y gwersi ac ar amseroedd eraill, mae athrawon a staff cymorth yn delio'n effeithiol iawn gyda'r disgyblion os, a phan, mae sefyllfaoedd heriol yn codi. Yn gyffredinol, mae athrawon yn dosrannu cyfrifoldebau addas i'r staff cymorth ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion unigol a grwpiau bach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad, cynnydd a lles y disgyblion.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio a threfnu gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'w disgyblion ac sydd yn sicrhau lefel dda o ymgysylltiad a chyfranogiad ganddynt. Mae nodau ac amcanion gwersi yn glir ac mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau digidol pwrpasol ac yn cynhyrchu adnoddau dysgu deniadol.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynllunio tasgau a gweithgareddau yn ofalus ar gyfer datblygu medrau eu disgyblion. Mae gan y mwyafrif ddisgwyliadau priodol ohonynt ac mae lefel yr her i'r disgyblion yn addas. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion yn y cynllunio yn golygu bod ychydig o ddisgyblion yn rhy oddefol neu ddim yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau addysgu amrywiol i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol i'r wers. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae cyflymder y wers yn rhy araf ac mae ychydig o athrawon yn treulio gormod o amser yn cyflwyno a ddim yn sicrhau bod y disgyblion yn cyfrannu digon i weithgareddau.

Mae llawer o athrawon yn cyfarwyddo ac yn esbonio'n glir, gyda'r mwyafrif yn modelu atebion yn briodol i'w disgyblion. Fodd bynnag, mae'r modd y mae athrawon yn defnyddio holi i sicrhau dealltwriaeth ac i symud y dysgu yn ei flaen yn rhy amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn defnyddio holi'n fwriadus, i sicrhau ymglymiad pob disgybl, i wirio dealltwriaeth ac i ddatblygu medrau meddwl a chreadigrwydd disgyblion. Maent yn cyflwyno cyfres o gwestiynau chwim a phwrpasol sydd yn annog cyfranogiad pob disgybl. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn addasu cwestiynau'n ddigon gofalus nac yn cynnwys yr holl ddisgyblion wrth holi. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn y gwersi hyn yn cyfrannu cystal ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn canmol ymdrechion a chynnydd disgyblion yn briodol a chyson. Mae ychydig o athrawon yn gwneud defnydd buddiol iawn o gamgymeriadau disgyblion i egluro ymhellach ac i hwyluso'u dealltwriaeth. Er bod y rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig gwerthfawr ar waith disgyblion, nid ydynt bob tro'n cynnwys sylwadau buddiol ar sut i wella'r gwaith.

Llwydda'r ysgol i ddarparu cwricwlwm addas sydd yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm yn rhy gyfyng i fodloni gofynion ychydig o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod addas o brofiadau buddiol i ddisgyblion hŷn sydd yn cynnwys cyfleoedd fel profiad gwaith a lleoliadau mewn prosiectau cefnogi cymunedol. Ar y cyfan, mae'r llwybrau dysgu yn cael eu teilwra yn briodol i fodlonianghenion a dyheadau disgyblion ôl 16. Er bod yr ysgol yn cynnig ystod o gymwysterau addas i ddisgyblion hŷn, mae diffyg amrywiaeth, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy galluog.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus trwy ddarparu ystod amrywiol o weithgareddau, ymweliadau a theithiau preswyl. Er enghraifft, mae'r daith breswyl i wersyll yr Urdd yn helpu'r disgyblion i ymarfer eu medrau cyfathrebu. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr er mwyn hybu dwyieithrwydd y disgyblion. O ganlyniad, maent yn llwyddiannus wrth sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'u gallu a'u hanghenion.

Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn briodol yn eu cynlluniau gwaith tymhorol. O ganlyniad, mae'r medrau hyn yn cael eu hatgyfnerthu a'u datblygu'n addas yn y mwyafrif o bynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol gynlluniau digon strategol er mwyn sicrhau dilyniant ym medrau'r disgyblion er mwyn iddynt adeiladu ar eu dysgu blaenorol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer adnabod anghenion dysgu'r disgyblion unigol o'u mannau cychwyn. Defnyddir data yn briodol i arfarnu cynnydd disgyblion unigol, i gynllunio eu camau dysgu nesaf ac i ddarparu cymorth pellach. O ganlyniad, mae'r athrawon a'r staff ategol yn darparu rhaglenni cymorth penodol defnyddiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu a'u lles. Mae gan ddisgyblion gynlluniau unigol manwl sy'n nodi targedau penodol a strategaethau sy'n helpu staff i fodloni eu hanghenion dysgu. Mae'r ysgol yn sicrhau bod arbenigwyr allanol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth, yn enwedig pan nad yw disgyblion yn bodloni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr gyda'r rhieni am y profiadau dysgu mae'r disgyblion yn eu derbyn ac, yn gyffredinol, yn rhoi gwybodaeth fuddiol am gynnydd. Mae gan yr ysgol berthynas lwyddiannus gyda'i rhieni ac wedi sefydlu ystod o ddulliau cyfathrebu effeithiol â nhw. Mae hyn yn helpu rhieni i gefnogi eu plant a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar gynnydd eu plentyn. Er enghraifft, mae'r dyddiaduron rhwng yr ysgol a'r cartref yn cynnwys gwybodaeth bwysig am beth mae'r disgyblion wedi ei gyflawni yn ystod y dydd ac adref.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a'r celfyddydau creadigol. Mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg, a myfyrio ar eu teimladau a'u credoau. Wrth astudio a dysgu am draddodiadau eraill fel y flwyddyn newydd Tsieineaidd, daw'r disgyblion i ddysgu am wahanol ddiwylliannau.

Mae gweithgareddau hwyliog i hybu medrau celfyddydol a mynegiannol wedi eu sefydlu yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cynnal sioe gerdd lwyddiannus ac wedi cydweithio ag ysgol leol i greu cryno ddisg o ganeuon i hybu arwyddo fel dull o gyfathrebu. Mae'r ysgol yn rhoi pwysigrwydd ar ddatblygu mentergarwch ei disgyblion. Mae'r amryw gwmnïau busnes o fewn yr ysgol yn magu annibyniaeth a chydweithio effeithiol rhwng y disgyblion.

Mae gan yr ysgol strategaethau llwyddiannus er mwyn sicrhau bod presenoldeb disgyblion yn gyson dda. Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol, y gwasanaeth iechyd a'r tîm o therapyddion arbenigol yn sicrhau bod apwyntiadau arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau meddygol dwys a chymhleth ar safle'r ysgol. Mae amrywiaeth o ymyraethau arbenigol effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion ymddygiad. Dros amser, maent wedi helpu'r disgyblion hyn yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a phersonol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ar y cyfan, mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r ysgol at rai materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gan yr ysgol strwythur arweinyddiaeth newydd ers mis Medi 2016 i fodloni gofynion ysgol fwy ar safle newydd. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r llywodraethwyr, yr uwch dîm rheoli a'r staff wedi cydweithio'n gydwybodol er mwyn arwain yr ysgol trwy gyfnod o newid sylweddol. O ganlyniad, mae'r disgyblion a'r staff wedi ymgartrefu'n hwylus yn eu hadeilad newydd ers Tachwedd 2016.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu'r ysgol i fod yn gymuned addysgol gynhwysol sydd yn hybu lles a meithrin bob disgybl i'w llawn botensial. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni, a'r llywodraethwyr ac yn sicrhau bod arwyddair yr ysgol, sef 'Chwerthin â'n Gilydd, Chwarae â'n Gilydd, Dysgu â'n Gilydd' yn treiddio trwy waith yr ysgol.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau cyfredol sy'n nodi eu cyfrifoldebau'n briodol. Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi'u hadolygu'n ddiweddar, ond nid ydynt eto

wedi gwreiddio'n llawn. Mae'r newidiadau diweddar, yr aildrefnu cyfrifoldebau arweiniol a chynnydd sylweddol yn nifer y staff a disgyblion yn golygu bod yr uwch dîm rheoli wedi rhoi nifer o weithdrefnau newydd ar waith. Fodd bynnag, nid ydynt wedi ffocysu'n ddigon miniog ar fonitro cysondeb ac effaith y gweithdrefnau hyd yma. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â'r anghysondebau ar draws yr ysgol, er enghraifft yn y cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ac yn yr addysgu.

Mae'r pennaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda staff i drafod agweddau o waith yr ysgol ac i rannu gwybodaeth. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau a chynllun gwella'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu dealltwriaeth y staff o'u cyfrifoldebau a'u cyfraniad wrth ddatblygu blaenoriaethau'r ysgol.

At ei gilydd, mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yr ysgol yn addas. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff yn briodol trwy raglen hyfforddiant penodol yn unol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, eleni mae'r ysgol yn darparu cyfres o sesiynau hyfforddi dwys i'r holl staff ar ystod o ddulliau i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Golyga hyn fod staff yn fwy hyderus a chyson yn eu dulliau o ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen datblygiad proffesiynol yn cynnig digon o gyfleoedd i staff arsylwi arfer orau o fewn yr ysgol nac mewn ysgolion tebyg eraill.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithgareddau sicrhau ansawdd priodol dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi gwreiddio'n llawn ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o ystod o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi a barn disgyblion, rhieni a staff trwy holiaduron cyson. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sydd, ar y cyfan, yn rhoi darlun priodol o gryfderau'r ysgol ac yn adnabod llawer o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er bod y trefniadau ar gyfer dadansoddi a defnyddio data yn datblygu, nid ydynt ar hyn o bryd yn ystyried cynnydd dros dreigl amser yn ddigon effeithiol i adnabod patrymau mewn perfformiad. Yn ogystal, nid oes trefniadau digon effethiol i ddefnyddio'r wybodaeth o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu i ddod i farn am safonau a chynnydd disgyblion mewn gwersi.

Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio'r wybodaeth o'r adroddiad hunanarfarnu yn briodol er mwyn pennu eu blaenoriaethau gwelliant. Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethau gwelliant yn addas ac yn canolbwyntio ar hybu lles, cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion dwys a chefnogi rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi adnabod ychydig o feysydd pwysig i'w gwella fel sicrhau cysondeb yn yr addysgu a chynllunio ar gyfer y medrau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidol cadarn ac mae gwariant wedi'i gysylltu'n addas â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Gwneir defnydd effeithiol o'r grant gwella ysgolion a'r grant datblygu disgyblion er mwyn hybu lles a chynhwysiant disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyflogi therapydd ymddygiad arbenigol a chefnogi rhaglenni addysgol penodol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau i fesur effaith yr holl wariant wedi gwreiddio.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae nifer yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn arwain ar flaenoriaethau yn y cynllun gwelliant. Golyga hyn fod

ganddynt ddealltwriaeth fuddiol o anghenion y disgyblion ac o waith dydd i ddydd yr ysgol.  Fodd bynnag, datblygu'n raddol mae rôl y llywodraethwyr fel ffrind beirniadol er mwyn dwyn yr arweinwyr i gyfrif.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓒ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2018